

# Y Bwrdd Taliadau

12 Mehefin 2013

## Cais am Wybodaeth.

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 14 Mai, pan wnaethoch ofyn am y wybodaeth a ganlyn:

1. *The full membership of the Remuneration Board and their roles relating to it.*
2. *How often they have met (please include days and hours) since the beginning Fourth Assembly.*
3. *The total catering, travel and miscellaneous costs incurred by the Commission relating to convened meetings of the Remuneration Board since the beginning of the Fourth Assembly.*
4. *The amount paid to the Rt Hon Sir George Reid for his work as Chair of the Remuneration Board in total (please provide both salary and expenses).*
5. *A breakdown of the money claimed by Sir George Reid for travel expenses since he became chair of the Remuneration Board (please provide destination, date, type and class of travel)*
6. *All correspondence between senior management of the Assembly Commission relating to the review of AMSS pay and conditions.*
7. *The number of meetings of the Remuneration Board held where this issue was an item for discussion.*
8. *Money paid to Rt Hon Sir George Reid for his work as Chair of the Remuneration Board for his work leading the review (in salary and expenses)*
9. *A breakdown of the money claimed by Sir George Reid for travel expenses for his work as Chair leading the review (please provide destination, date, type and class of travel)*
10. *The overall cost thus far of the review into AMSS pay and conditions incurred by the Assembly Commission*
11. *The number of staff employed by the Assembly Commission who have been involved in working on the review and a breakdown of hours and cost in terms of hourly rates for staff*
12. *The catering, travel and miscellaneous costs incurred by the Commission relating to meetings on the review into AMSS pay and conditions.*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Bwrdd Taliadau yn awdurdodau cyhoeddus ar wahân o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Yn hytrach na darparu dau ymateb ar wahân i chi (h.y un gan y Cynulliad a'r llall ar ran y Bwrdd) mae'r canlynol yn ymateb ar y cyd ac mae'n rhoi gwybodaeth gan y ddau awdurdod cyhoeddus.

Dylech ei drin fel ymateb dros dro i'ch cais. Rydym yn darparu gwybodaeth ynddo sy'n ymateb i gwestiynau 1 - 5 a chwestiynau 7 - 12 yn gynwysiedig. Nid ydym

mewn sefyllfa i ymateb yn llawn i gwestiwn 6 eto, ond ceisiwn wneud hynny erbyn 3 Gorffennaf, neu cyn hynny (gweler cwestiwn 6 isod i gael rhagor o fanylion).

*1. The full membership of the Remuneration Board and their roles relating to it.*

Mae gwybodaeth yngylch aelodau'r Bwrdd Taliadau a'u meysydd arbenigedd ar gael ar dudalennau'r Bwrdd ar y we:

[http://www.cynulliadcyfryd.org/memhome/pay-expenses-financial-interests-standards/mem-allow-pay-pensions/remuneration\\_board.htm](http://www.cynulliadcyfryd.org/memhome/pay-expenses-financial-interests-standards/mem-allow-pay-pensions/remuneration_board.htm)

Ynghyd â'u bywgraffiadau unigol:

[http://www.cynulliadcyfryd.org/memhome/pay-expenses-financial-interests-standards/mem-allow-pay-pensions/remuneration\\_board/members-remuneration-board-information/members-remunerationboardbiographies.htm](http://www.cynulliadcyfryd.org/memhome/pay-expenses-financial-interests-standards/mem-allow-pay-pensions/remuneration_board/members-remuneration-board-information/members-remunerationboardbiographies.htm)

*2. How often they have met (please include days and hours) since the beginning of the Fourth Assembly.*

Mae'r Bwrdd wedi cyfarfod 12 o weithiau ers dechrau'r Pedwerydd Cynulliad. Cyhoeddir manylion llawn yr amseroedd cyfarfod (gan gynnwys dyddiau ac oriau) gydag agendâu a chofnodion y Bwrdd, sydd ar gael ar dudalennau'r Bwrdd ar y we:

[http://www.cynulliadcyfryd.org/memhome/pay-expenses-financial-interests-standards/mem-allow-pay-pensions/remuneration\\_board/meetings-board.htm](http://www.cynulliadcyfryd.org/memhome/pay-expenses-financial-interests-standards/mem-allow-pay-pensions/remuneration_board/meetings-board.htm)

*3. The total catering, travel and miscellaneous costs incurred by the Commission relating to convened meetings of the Remuneration Board since the beginning of the Fourth Assembly.*

Bydd y Bwrdd yn cyhoeddi adroddiad blynnyddol sy'n nodi manylion ei weithgareddau, gan gynnwys costau'r gweithgareddau hynny.

Caiff gwybodaeth yn ymwneud â chostau'r Bwrdd Taliadau ar gyfer 2010-11 a 2011-12 ei chyhoeddi yn yr adroddiadau blynnyddol canlynol:

2010-11      <http://www.cynulliadcyfryd.org/gen-ld8710-c.pdf>  
2011-12      <http://www.cynulliadcyfryd.org/gen-ld8989-c.pdf>

Cyhoeddwyd y costau teithio a chynhaliaeth yn yr adroddiad blynnyddol ar gyfer 2010-11, ond fel cost cyfun, hynny yw, nid ar y ffurf yr oeddech yn gofyn amdanyst. Fodd bynnag, roedd cais am wybodaeth a ryddhawyd ar 22 Chwefror 2012 yn darparu'r wybodaeth rydych yn chwilio amdani:

[http://www.cynulliadcymeru.org/cy/abthome/about\\_us-commission\\_assembly\\_administration/abt-foi/disclosure-log-month-view.htm?act=dis&id=239931&ds=8/2012](http://www.cynulliadcymeru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/disclosure-log-month-view.htm?act=dis&id=239931&ds=8/2012)

Mae atodlen lawn o'r costau hyn i'w gweld yn -

[http://www.cynulliadcymeru.org/abthome/about\\_us-commission\\_assembly\\_administration/abt-foi/disclosure-log-month-view.htm?act=dis&id=243294&ds=2/2012](http://www.cynulliadcymeru.org/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/disclosure-log-month-view.htm?act=dis&id=243294&ds=2/2012)

Bydd y Bwrdd yn cyhoeddi ei adroddiad blynnyddol nesaf yn ystod yr wythnosau nesaf a bydd hwn yn cynnwys costau ei weithgareddau yn 2012-2013. Oherwydd y bydd y wybodaeth rydych yn gofyn amdani yn cael ei chyhoeddi, ni fyddwn yn darparu'r wybodaeth ar hyn o bryd, gan y bydd modd i chi weld y wybodaeth, yn llawn, pan gaiff ei chyhoeddi. Mae'r rhesymau dros beidio â darparu'r wybodaeth ar hyn o bryd wedi eu hesbonio yn Adran 22(1)(a) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. I gael rhagor o wybodaeth, gweler [Atodiad A](#).

4. *The amount paid to the Rt Hon Sir George Reid for his work as Chair of the Remuneration Board in total (please provide both salary and expenses).*

Fel y nodwyd uchod, mae'r adroddiadau blynnyddol yn cynnwys manylion am y ffioedd a dalwyd i holl aelodau'r Bwrdd Taliadau yn ogystal â'r treuliau a godwyd ganddynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau. Mae adroddiadau blynnyddol 2010-11 a 2011-12 ar gael ar dudalennau'r Bwrdd ar y we:

[http://www.cynulliadcymeru.org/memhome/pay-expenses-financial-interests-standards/mem-allow-pay-pensions/remuneration\\_board.htm](http://www.cynulliadcymeru.org/memhome/pay-expenses-financial-interests-standards/mem-allow-pay-pensions/remuneration_board.htm)

Bydd y Bwrdd yn cyhoeddi ei adroddiad blynnyddol nesaf o fewn yr wythnosau nesaf. Bydd hwn yn cynnwys gwybodaeth am ffioedd a threuliau holl aelodau'r Bwrdd ar gyfer 2012-13. Fel sy'n wir am gwestiwn 3 uchod, mae'r wybodaeth a geisiwch wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu yn rhinwedd adran 22(1)(a) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae ein rhesymeg dros ddibynnu ar adran 22(1)(a) wedi'i hamlinellu yn [Atodiad A](#).

5. *A breakdown of the money claimed by Sir George Reid for travel expenses for his work as Chair leading the review (please provide destination, date, type and class of travel)*

Gweler y ddogfen atodedig - Atodiad B. Nid yw'r tabl yn cynnwys gwybodaeth am ddosbarth y teithio, ac nid yw hon yn wybodaeth sydd ar gael gennym.

*6. All correspondence between senior management of the Assembly Commission relating to the review of AMSS pay and conditions.*

Ni allwn ddarparu ymateb cyflawn i'r cwestiwn hwn ar hyn o bryd. Rydym yn bwriadu dibynnu ar yr eithriad yn adran 36 o'r Ddeddf - niwed i gynnal materion cyhoeddus mewn modd effeithiol. Mae'r eithriad hwnnw'n amodol ac mae'n ymwneud â chydbwyso lles y cyhoedd. Mae'r Ddeddf yn caniatáu cymaint o amser ag sy'n rhesymol yn yr amgylchiadau ar gyfer cynnal y prawf lles y cyhoedd. Hefyd bwriadwn ddibynnu ar yr eithriad yn adran 40 - gwybodaeth bersonol, a cheisiwn ddarparu ateb i chi erbyn 3 Gorffennaf, neu cyn hynny.

*7. The number of meetings of the Remuneration Board held where this issue was an item for discussion.*

Mae'r Bwrdd wedi trafod yr adolygiad o Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad mewn saith cyfarfod, fel a ganlyn:

23 Mawrth 2012  
22 Mehefin 2012  
12 Hydref 2012  
14 Rhagfyr 2012  
25 Ionawr 2013  
15 Chwefror 2013  
22 Mawrth 2013

Ym mhob cyfarfod, trafodwyd y mater ochr yn ochr â nifer o eitemau eraill ar yr agenda. Mae'r agendâu a'r cofnodion ar gael ar y wefan:

[http://www.cynulliadcymru.org/memhome/pay-expenses-financial-interests-standards/mem-allow-pay-pensions/remuneration\\_board/meetings-board.htm](http://www.cynulliadcymru.org/memhome/pay-expenses-financial-interests-standards/mem-allow-pay-pensions/remuneration_board/meetings-board.htm)

*8. Money paid to Rt Hon Sir George Reid for his work as Chair of the Remuneration Board for his work leading the review (in salary and expenses)*

Mae'r Bwrdd wedi cynnal nifer o weithgareddau ochr yn ochr â'i adolygiad o lwfans staffio Aelodau'r Cynulliad gan gynnwys adolygiad o bensiynau Aelodau'r Cynulliad a'r adolygiad blynyddol o'i Benderfyniad. Trafodir amrywiaeth eang o bynciau mewn cyfarfodydd ffurfiol o'r Bwrdd, fel y cyhoeddir yn y cofnodion, ac mewn cyfarfodydd rhwng y Cadeirydd ac Aelodau'r Cynulliad. Felly nid yw'n bosibl mesur yn gywir gostau meysydd gwaith penodol.

9. A breakdown of the money claimed by Sir George Reid for travel expenses for his work as Chair leading the review (please provide destination, date, type and class of travel)

Gweler yr ymateb i gwestiwn 8.

10. The overall cost thus far of the review into AMSS pay and conditions incurred by the Assembly Commission

Gweler yr ymateb i gwestiwn 8.

11. The number of staff employed by the Assembly Commission who have been involved in working on the review and a breakdown of hours and cost in terms of hourly rates for staff

Nifer staff Comisiwn y Cynulliad sydd wedi rhoi cyngor a chymorth i waith y Bwrdd ar yr adolygiad hwn yw naw. Mae'r amser y mae pob unigolyn wedi'i dreulio'n gwneud y gwaith wedi amrywio o berson i berson.

Roedd y graddfeydd fel a ganlyn:

SB2 – Cyfarwyddwr  
Band gweithredol 2 (Band F).  
Band Rheoli 1 (Band E)  
Band Rheoli 2 (Band D)  
Cymorth Tîm

Ni fydd y staff yn cofnodi'r amser a dreuliant ar weithgareddau penodol, fel yr adolygiad dan sylw, ac felly, nid oes modd darparu'r wybodaeth hon. Mae'r tabl isod yn rhoi cyfraddau fesul awr y graddau a restrir uchod. Mae'r cyfraddau isod yn cynnwys cyfraniad Yswiriant Gwladol a chyfraniad pensiwn.

<b>Graddau</b>	<b>Cyfradd fesul awr (gan gynnwys Yswiriant Gwladol a phensiwn) (7.4 awr)</b>
<b>Cymorth Tîm</b>	
	£ 11.06
	£ 12.08
	£ 13.36
<b>Band D / Band Rheoli 2</b>	
	£ 17.24

	£	18.29
	£	19.35
	£	20.40
	£	21.43
	£	22.74
<b>Band E / Band Rheoli 1</b>		
	£	22.94
	£	24.04
	£	25.14
	£	26.24
	£	27.37
	£	28.94
<b>Band F / Band gweithredol 2</b>		
	£	30.61
	£	32.11
	£	33.61
	£	35.12
	£	36.62
	£	38.71
<b>S-2 / Cyfarwyddwr</b>		
	£	67.33
	£	70.24
	£	73.27
	£	76.42
	£	79.71
	£	83.14

Mae graddfeydd cyflog staff Comisiwn y Cynulliad wedi'u cyhoeddi ac maent ar gael ar ein gwefan yn:

<http://www.cynulliadcyrmu.org/gethome/working/recruitment/get-working-working-comm-assembly-jobs/pay-scales.htm>

*12. The catering, travel and miscellaneous costs incurred by the Commission relating to meetings on the review into AMSS pay and conditions.*

Gweler yr ymateb i gwestiwn 8.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan

ar [http://www.cynulliadcyfry.org/cy/abthome/about\\_us-commission\\_assembly\\_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm](http://www.cynulliadcyfry.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm)

Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**

**Swyddog Rhaglenni**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

## **Atodiad A**

Mae adran 22 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn darparu bod:

(1) Gwybodaeth yn wybodaeth wedi'i heithrio:

- (a) os yw'r wybodaeth yn cael ei chadw gan yr awdurdod cyhoeddus gyda'r bwriad o'i chyhoeddi, gan yr awdurdod neu gan berson arall, rywbryd yn y dyfodol (p'un a yw'r dyddiad wedi'i bennu ai peidio);
- (b) os oedd y wybodaeth yn cael ei chadw eisoes gyda'r bwriad o'i chyhoeddi pan wnaed y cais am ei gweld, a
- (c) os yw'n rhesymol o dan yr holl amgylchiadau i beidio â rhyddhau'r wybodaeth tan y dyddiad a nodir ym mharagraff (a).

Mae adran 22 yn eithriad amodol a, chan hynny, mae angen ystyried prawf o fudd cyhoeddus.

Mae Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 yn ei gwneud yn ofynnol bod y Bwrdd Taliadau'n cyhoeddi gwybodaeth o'r fath fel bo angen, i alluogi'r cyhoedd i fod yn ymwybodol o'i weithgareddau. Bydd yn gwneud hynny drwy gyhoeddi adroddiad blynnyddol, yn ogystal ag agendâu a chofnodion cyfarfodydd.

Arfer y Bwrdd yw cyhoeddi'r wybodaeth rydych yn chwilio amdani fel rhan o'i adroddiad blynnyddol, a disgwylir i hyn ddigwydd ym mis Gorffennaf.

Ni allwn weld unrhyw amgylchiadau sy'n awgrymu y byddai datgelu'r wybodaeth yn gynt nag arfer o unrhyw fudd cyhoeddus yn yr achos penodol hwn. Gan hynny, rydym o'r farn nad yw'r budd cyhoeddus a fyddai ynghlwm wrth ddatgelu'r wybodaeth yn gynt nag arfer yn drech na'r budd cyhoeddus sydd ynghlwm wrth gadw at y trefniadau uchod.

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am  
Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn <http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm>. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled o'r cod.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad isod:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth / Information Commissioner's Office  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF

**Buddug Saer**  
**Swyddog Rhaglenni**  
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**